



Mae'r nodyn cyfarwyddyd hwn yn rhoi cyngor ar sut i ddiwallu'r angen am lywodraethu ac atebolrwydd effeithiol mewn perthynas â pharatoi a chyflawni'r cynllun. Mae'n bwysig oherwydd bod y cysyniad o gydgyllun ardal dan nawdd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cyflwyno heriau newydd o ran llywodraethu ac mae angen ei ystyried yn ofalus.

Dylid darllen y canllawiau statudol ochr yn ochr â'r canllawiau statudol Rhan 9 ar Bartneriaethau. Yn amlwg, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw'r corff llywodraethu ar gyfer cyfarwyddo'r gwaith o greu a gweithredu'r cynlluniau ardal. Rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod yr awdurdod lleol a phartneriaid BILI yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth a gweithredu'r cydgyllun ardal.

Canllawiau

Cynigiwyd canllawiau ar bartneriaethau a llywodraethu yn y pecyn cymorth yr asesiad o'r boblogaeth a byddem yn cyfeirio atynt yma. Am gopi o'r pecyn cymorth, ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/population-assessment-toolkit>

Yr egwyddorion pwysig i'w mabwysiadu mewn perthynas â llywodraethu yw bod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gwybod yn union beth yw ei gyfrifoldebau a'r penderfyniadau y mae gofyn iddo'u gwneud, yn cynnwys ei atebolrwydd a'r risgiau cysylltiedig. Yn yr un modd, mae angen i bob un o'r partneriaid fod yn glir ynghylch y graddau y maent wedi cytuno i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wneud penderfyniadau ar ran yr holl bartneriaid gyda gofyniad neu heb ofyniad i gyfeirio'n ôl at y cyrff cyfansoddol.

Mae'n bosibl bod y Bwrdd wedi mabwysiadu strwythur isadrannau i gyflawni darnau penodol o waith. Os felly, rhaid i'r is-grwpiau fod yr un mor glir am y pwerau dirprwyedig a'r disgwyliadau o ran adrodd yn ôl.

Yn yr un modd, mae'r Bwrdd yn debygol o enwebu partneriaid arweiniol ar gyfer gwahanol agweddau ar y cynllun. Mae gan hyn oblygiadau ar gyfer llywodraethu hefyd a lle caiff partneriaid arweiniol eu henwebu, rhaid i'r disgwyliadau arnynt mewn perthynas â chyfrifoldebau, atebolrwydd ac adrodd fod yn gwbl glir o'r cychwyn cyntaf.

Cwestiynau myfyriol

- ◆ A ydych yn glir ynghylch y trefniadau llywodraethu ar gyfer
 - a) Eich Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
 - b) Sefydliadau unigol y mae aelodau'r Bwrdd yn eu cynrychioli?
- ◆ A ydych wedi pennu strwythur clir ar gyfer monitro ac adrodd ar y gwaith o gyflawni'r cynllun?

Adnoddau defnyddiol

<https://www.local.gov.uk/stepping-place-integration-self-assessment-tool>

